# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol Nos Fercher - 12.05.21 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Ian Williams, Dylan Thomas, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Edwards, Geraint Micah, David Griffiths, John Griffiths, Jenny Warne, Louise Hughes (Cynghorydd Sirol), Glenda Edwards (Clerc).

1. **Ymddiheuriadau:** Huw Davies

2. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, a thrafodwyd swyddi newydd am 2021-22. Diolchodd y Cadeirydd newydd i Huw Davies am ei wasanaeth fel Cadeirydd am y ddwy flynedd diwethaf.

   **Cadeirydd:** **Kevin Goodchild** ➞ Cynnig: Geraint Edwards. Eilio: Ian Williams
   **Is-gadeirydd:** **Keith Carroll** ➞ **Cynnig:** Geraint Edwards **Eilio:** Dylan Thomas
   **Cynrychiolwyr:** **Un Llais Cymru:** Dylan Thomas a Kevin Goodchild. **Pwyllgor Pig yr Allt:** Geraint Edwards.
   **Heddlu:** Ian Williams. **Y Ganolfan:** David Griffiths

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y **09.12.20** fel rhai cywir.
   **Cynnig –** Geraint Edwards **Eilio –** Jenny Warne**.**
   Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 31.03.21 fel rhai cywir.
   **Cynnig –** Geraint Edwards **Eilio –** Ian Williams.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol:**
   a) **Llinellau Melyn Dwbl Arfaethedig ger Maes y Crynwyr, Llwyngwril**
   Swyddog Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau Cyngor Gwynedd wedi cytuno i ymestyn y cyfnod ymgynghori tan fyddai'r Cyngor Cymuned wedi cael cyfarfod i drafod y cynllun arfaethedig yma
   **Penderfyniad** ➞ cysylltu â Swyddog Cyngor Gwynedd i'w gwneud yn ymwybodol fod y Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu'r cynllun yma, gan nad oedd yr aelodau yn gweld fod angen llinellau melyn dwbl yn y safle yma.

5. **Gohebiaeth:**
   a) **Playsafe/ROSPA** – archwiliad o'r cae chwarae wedi ei drefnu erbyn Mis Mehefin 2021.
   b) **Rhaglen Waith Mis Ebrill a Mai 2021** Gyngor Gwynedd, ar gyfer Llwyngwril a Rhoslefain.
   c) **Archwiliad Mewnol y flwyddyn yn diweddi 31.03.21:** Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd yn fodlon ymgymryd ar gwaith eto eleni felly anfon llythyr ymrwymiad/penodi iddynt.
   d) **Toiledau Cyhoeddus Llwyngwril** – dim newid i'r cytundeb presennol – felly cadw'r toiledau ar agor 2021-22.
   e) **Mynwent y Crynwyr, Llwyngwril** - llythyr gan Fudiad y Crynwyr yn cynnig talu am dorri'r gwair yn y fynwent y flwyddyn nesa 'ma
   **Penderfyniad** ➞ llythyr i ddiolch am y cynnig a rhoi manylion cysylltu Geraint Micah iddynt allu cysylltu â fo.
   f) **Parcio peryglus ger y cae chwarae yn Llwyngwril -** llythyr wedi ei dderbyn gan aelod o'r gymuned yn lleisio ei phryder ynglŷn â cheir yn parcio yn y fan yma, yn gwneud y safle yn beryglus i blant ddod allan o'r cae chwarae
   **Penderfyniad** ➞ cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn iddynt am ymweliad safle a chyngor ynglyn a'r sefyllfa.
   g) **Swydd y Clerc –** llythyr gan Glenda, y clerc, yn ymddiswyddo (6 mis o rybudd).
   **Penderfyniad** ➞ Hysbysebu'r swydd wag ar y wefan ag yr hysbysfwrdd yn y pentref.
   h) **Llwybr ger Wendy's -** (11.04.21) e-bost arall wedi ei dderbyn gan Mr Nick Ward yn dweud ei fod wedi gwneud cais i Gyngor Gwynedd i gael y llwybr yma wedi ei ychwanegu i'r Map a Datganiad Swyddogol ar gyfer Gwynedd ac yn gofyn i'r Cyngor Cymuned gefnogi y cais.
   **Penderfyniad** ➞ **llythyr i Mr Ward i ddweud na fydd y Cyngor Cymuned yn gefnogi'r cais yma.**

6. **Materion Cynllunio – Parc Cenedlaethol Eryri:**
   - **a) NP5/69/410** - Pentre' Bach, Llwyngwril - Adeiladu gweithdy/storfa → dim sylwadau na gwrthwynebiadau.
   - **b) NP5/69/15H** - Brynllwyn, Rhoslefain - Codi adeilad amaethyddol → dim sylwadau na gwrthwynebiadau.
   - **c) NP5/69/113J** – Llanfendigaid Hall, Rhoslefain → dim sylwadau na gwrthwynebiadau.
   - **d) NP5/69/41D** - **Tir gyferbyn a Mynwent y Crynwyr, Llwyngwril** - Cais ol-weithredol ar gyfer defnyddio'r tir ar gyfer lleoli un garafán deithiol yn barhaol ar gyfer defnydd fel llety gwyliau yn Llwyngwril
     ➔ **gwrthwynebu y cais yma ac anfon y sylwadau i'r Parc Cenedlaethol Eryri**. Cyngor Cymuned Llangelynnin wedi derbyn llythyrau gan aelodau o'r gymuned yn gwrthwynebu y cais yma hefyd.

   - **e) *NP5/69/354C** - Maes y Crynwyr, Llwyngwril - Cais ol-weithredol i osod cladin llwyd ar ochr y garej
     → dim sylwadau na gwrthwynebiadau.
   - **f) *NP5/69/394E** – Wendy's, Llwyngwril - Codi annedd newydd a man parcio a phatio
     → dim sylwadau na gwrthwynebiadau.
   - **g) *NP5/69/932B** - Llwyn Du, Llwyngwril – Codi annedd deulawr → dim sylwadau na gwrthwynebiadau.
     *Cafodd y tri chais yma eu derbyn yn y cyfnod clo diwethaf - felly anfonodd y clerc y wybodaeth i'r aelodau ar e-bost ond ni chafodd dim sylwadau na gwrthwynebiadau i anfon i sylw'r Parc Cenedlaethol Eryri.

7. **Adroddiad Ariannol**: Adolygiad ariannol wedi ei wneud.
   **Cyfrifon y Cyngor Cymuned – 2020 - 2021:**
   - Derbyniwyd Cyfrifon Diwedd y Flwyddyn **31.03.21** yn gywir.
     **Cynnig –** Ian Williams **Eilio –** Jenny Warne **Arwyddwyd –** Kevin Goodchild.
   - Ffurflen Flynyddol 31.03.2021, wedi ei pharatoi yn barod i'r Archwiliad Mewnol ar y 27.05.21.
   - Penodwyd Uned Archwilio Fewnol Cyngor Gwynedd i archwilio cyfrifon y Cyngor Cymuned eisoes (14.03.21).

   - **a) Praesept** wedi ei dderbyn – 27.04.21 (am 6 mis) = **£4,900.00.**
   - **b) Ad-daliad** wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd am y llwybrau = **£200.00.**
   - **c) TAW 2020-21** - Ffurflen ad-daliad wedi ei pharatoi i'w gyrru i'r Swyddfa Dreth (HMRC) = **£245.80.**

   - **d) BHIB** - Polisi Yswiriant y Cyngor Cymuned wedi ei adolygu – i gael ei adnewyddu erbyn 01.06.21
     **Penderfyniad** ➞ adnewyddu'r polisi hefo BHIB = **£793.69** **Cynnig:** Geraint Edwards **Eilio:** David Griffiths.
   - **d) Cofrestr Asedau'r Cyngor Cymuned -** adolygiad blynyddol wedi ei wneud – are gyfer yr yswiriant.
   - **e) Cofrestr Asesu Risg y Cyngor Cymuned –** adolygiad blynyddol wedi ei wneud – ar gyfer yr yswiriant.

   - **f) Adolygu Polisi Cyfraniadau Ariannol** → Pawb yn gytûn fod dim newid i fod am y flwyddyn nesaf, a siec i'w anfon i:
     Y Ganolfan £1,000.00, Ambiwlans Awyr £250.00, Mynwentydd Llangelynnin £500.00, ceisiadau eraill = £250.00.
   - **g) Ffermwyr Ifanc Meirionnydd –** cais am gyfraniad ariannol – pawb yn cytuno i gefnogi y cais = £25.00.
   - **h) Tŷ Gobaith,** Conwy - cais am gyfraniad ariannol - pawb yn cytuno i gefnogi y cais = £25.00.
     **Cynnig:** Geraint Edwards **Eilio:** Keith Carroll.

   - **i) Adolygiad o gyflog a chosta'r clerc:**
     - ***Geraint Edwards wedi datgan diddordeb, ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy lenwi ag arwyddo'r ffurflen addas, a heb gymerid rhan yn y drafodaeth.***

     Gweddill o'r aelodau wedi trafod a phawb yn gytûn gyda chynnydd o 2½% ar gyflog presennol y clerc …
     **Penderfyniad** ➞ Cyflog = £1,197.70 x 2 // Costa = £225.00 x 2 // Cynnydd o 2½% = £29.92 x 2 = **£1,452.62 x 2**
     Cyflog a chosta'r clerc i gael ei dalu dwywaith y flwyddyn – Mis Mai a Mis Tachwedd 2021,
     ag i gael ei adolygu yn flynyddol.

   - **j) Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol –** aelodau'r cyngor cymuned wedi ystyried pob dyfarniad yn adroddiad terfynol y panel – Chwefror 2021
     **Penderfyniad** ➞ aelodau i gyd yn gytûn i fabwysiadu dyfarniad Rhif 45 yn unig ➞ costau teithio.
     Aelodau i gyd wedi dewis "tynnu allan" o dderbyn lwfans o £150.00 ar gyfer y flwyddyn ariannol 31.03.2022,
     ac wedi rhoi rhybudd priodol i'r Clerc.

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:**
Derbyn adroddiad Louise Hughes. Mr Dafydd Gibbard yw Prif Weithredwr newydd Cyngor Gwynedd.

10. **Unrhyw Fater Arall:**

a) **Cof Golofn:** Keith Carroll wedi cynnig trio glanhau ag adnewyddu'r llythrennau ar y cof golofn.

b) **Difrod i Wal y Cae Chwarae**, Llwyngwril: John Griffiths wedi cynnig cael gair hefo perchennog y tir drws nesa i'r cae chwarae ac ateb yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

c) **Llwybr y Crynwyr:** Geraint Edwards yn awgrymu i'r Cyngor Cymuned wneud cais i Gyngor Gwynedd am orchymyn diwygio i gael y llwybr yma wedi ei ychwanegu i'r Map a Datganiad Swyddogol ar gyfer Gwynedd
**Penderfyniad** ➞ pawb yn cytuno hefo'r awgrym yma a'r clerc i lenwi'r ffurflenni priodol i wneud y cais yma i Gyngor Gwynedd.

d) **Llwybr lawr i lan y môr ger Parc carafanau Sunbeach** - Geraint Micah yn holi os oedd y Cyngor Cymuned wedi cael atebiad ynglyn a'r llwybr yma bellach gan Gyngor Gwynedd
**Penderfyniad** ➞ cysylltu â Chyngor Gwynedd am ddiweddariad ynglyn a'r sefyllfa, a'i hatgoffa fod perchennog Sunbeach wedi cau'r llwybr/ffordd i lawr i'r traeth yn fan yma.

e) **Meysydd Parcio yn Llwyngwril** - Cyngor Gwynedd wedi gaddo rhoi llinelli baeau yn y meysydd parcio yn Llwyngwril i i greu fwy o lefydd parcio yn y pentref - gwaith heb gael ei wneud …..
**Penderfyniad** ➞ cysylltu â Chyngor Gwynedd eto, i'w hatgoffa ynglyn a'r gwaith yma.

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:- Nos Fercher – 09.06.2021 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd …………………………………………………………………………………………………… Dyddiad ……………………………**